# Panel Dyfarnu Cymru

## Adroddiad Blynyddol



2010 - 2011

# Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg dros waith Panel Dyfarnu Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11.

Yn ystod 2010-11, cafodd y Panel 10 atgyfeiriad newydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a 2 apêl yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol. Er bod y niferoedd yn isel, roedd y ffigurau'n eithaf tebyg i'r niferoedd cymharol uchel o achosion a welwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cariwyd 9 achos pellach ymlaen o 2009-10.

Roedd hyn yn dipyn o her i'r Panel a'i adnoddau staff cyfyngedig. Fodd bynnag, rwy'n falch fod 12 achos wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac, ar hyn o bryd, dim ond 3 achos a gariwyd ymlaen i'r flwyddyn ariannol bresennol sy'n parhau'n agored.

Gyda thymor aelodau cyntaf y Panel yn eu swydd yn dirwyn i ben ym mis Medi 2012, mae proses benodi raddol ar gyfer aelodau newydd ar waith. Ym mis Tachwedd y llynedd, penododd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd dri aelod cyfreithiol newydd: Kate Berry, Emma Boothroyd a Gwyn Davies; a dau aelod lleyg newydd: Andrew Bellamy a Susan Hurds i wasanaethu ar y Panel.

Mae'n bleser gennyf eu croesawu i gyd ar y Panel. Bydd y ffaith iddynt gael eu penodi'n ddi-oed yn eu galluogi i ennill profiad gwerthfawr yn eistedd wrth ochr aelodau profiadol o'r Panel. Bydd hyn yn hwyluso parhad busnes y Panel yn ystod y cyfnod pontio. Cafwyd cyfnod sefydlu a hyfforddiant ac maent i gyd bellach wedi eistedd ar dribiwnlysoedd.

O ran hyfforddiant, cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi ar y cyd rhagorol ar gyfer aelodau newydd a chyfredol ym mis Rhagfyr 2010. Ymunodd Peter Tyndall ag aelodau i siarad am y cod ymddygiad enghreifftiol a'i rôl fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a bu Sarah Williams o'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol yn cynnal sesiwn ar sgiliau tribiwnlys a sut i gynnal gwrandawiad effeithiol mewn tribiwnlys. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant a grŵp eraill gan aelodau'r Panel, a fu'n gyfle i rannu gwybodaeth a phrofiad a sicrhau bod y broses o integreiddio'r aelodau newydd i'r tîm yn cael y dechrau gorau posibl.

Roeddwn yn falch eto eleni o gael gwahoddiad i siarad yng Nghynhadledd Safonau Cymru 2010 yng Nghaerdydd i roi fy safbwynt ar sut mae'r cod ymddygiad yn cael ei weithredu. Roedd y digwyddiad yn gyfle rhagorol i'r rhai sy'n cyfrannu at y cod ymddygiad ac yn hyrwyddo safonau uchel i gyfarfod a rhannu profiadau.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd y Bil Lleoliaeth yn gwneud newidiadau pellgyrhaeddol i'r fframwaith moesegol yn Lloegr ac i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno diwygiadau mor bellgyrhaeddol yng Nghymru, mae wedi ymrwymo i adolygu'r broses o wneud cwynion o dan y cod ymddygiad er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio'n unig. Er nad oes amserlen wedi'i phennu ar gyfer y gwaith hwn, mae gan y Panel Dyfarnu ddiddordeb amlwg mewn unrhyw newidiadau a fydd yn cael eu gwneud ac edrychaf ymlaen at gyfrannu at yr adolygiad maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddatblygu argymhellion adroddiad Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ar ôl ei 'Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru.' Yr her i'r Panel fydd sicrhau na fydd y newidiadau a ragwelir i'r trefniadau cymorth gweinyddol o fewn Llywodraeth Cymru yn niweidio'r modd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau.

I gloi, fy ngobaith yw y bydd yr adroddiad hwn a'r crynodebau achos o ddiddordeb i chi. Yn union fel y llynedd, mae'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Panel yn unig i arbed arian.



J PETER DAVIES
Llywydd y Panel

# Cynnwys


## 1. Y Cefndir 4

1.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 4

1.2 Egwyddorion Ymddygiad/Cod Ymddygiad 4

1.3 Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 5

1.4 Rôl Panel Dyfarnu Cymru 6

## 2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru 8

## 3. Honiadau o Gamymddwyn 11

3.1 Trosolwg 11

3.2 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos 12

3.3 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 21

3.4 Achosion sy'n Parhau 21

## 4. Trosolwg o'r Gweithdrefnau 22

## 5. Yr Uned Gymorth 24

## Atodiad

Crynodeb o'r cosbau a bennwyd gan y tribiwnlysoedd achos a'r tribiwnlysoedd apêl 25

# 1. Y Cefndir

## 1.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fframwaith newydd i annog aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr i roi pwyslais ar gadw safonau ymddygiad cyson. Yn y bôn, mae'r fframwaith yn cynnwys:

- cyfres o ddeg egwyddor ymddygiad cyffredinol (yn deillio o'r "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus");
- codau ymddygiad safonau lleol ar gyfer aelodau a swyddogion;
- pwyllgorau statudol ar wahân i gynghori aelodau ac awdurdodau perthnasol ar safonau ymddygiad;
- ymchwiliadau i gamymddwyn honedig gan aelodau yng Nghymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu swyddogion monitro awdurdodau lleol; a
- dyfarnu ymchwiliadau o'r fath gan bwyllgorau safonau lleol neu, mewn achosion mwy difrifol ar y cyfan, Panel Dyfarnu Cymru ("y Panel Dyfarnu").

"Awdurdodau perthnasol" dan Ran III o Ddeddf 2000 mewn perthynas â Chymru yw'r cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac awdurdodau'r heddlu.

## 1.2 Egwyddorion Ymddygiad/Cod Ymddygiad

Ar ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, mae gan Weinidogion Cymru y grym o dan Ddeddf 2000 i bennu egwyddorion ymddygiad cyffredinol ac i wneud cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Seiliwyd yr egwyddorion ar 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' a nodwyd yn adroddiad yr Arglwydd Nolan, 'Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban'.

Caiff yr egwyddorion cyffredinol eu hymgorffori yn y cod ymddygiad enghreifftiol cyfredol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008. Mae'n ofynnol i'r holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru (ac eithrio awdurdodau'r heddlu) - hynny yw, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chynghorau cymuned, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub - fabwysiadu cod ymddygiad sy'n cynnwys darpariaethau'r cod enghreifftiol. Mae'n rhaid i'r holl aelodau etholedig a chyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio) roi ymrwymiad ysgrifenedig i gadw at y cod ymddygiad a fabwysiedir gan eu hawdurdod.

Bydd y Bil Lleoliaeth, sy'n cael ei ystyried gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd, yn dileu'r fframwaith moesegol statudol yn Lloegr ac i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Yn lle'r fframwaith, bydd y Bil yn cyflwyno tramgwydd troseddol i gynghorwyr sy'n celu neu'n camliwio buddiannau personol yn fwriadol mewn perthynas â busnes y cyngor. Bydd y Bil hefyd yn galluogi i awdurdodau lleol fabwysiadu codau ymddygiad anstatudol a phwyllgorau safonau fel y gwelant yn dda.

## 1.3 Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru/ y Pwyllgorau Safonau

O dan Ddeddf 2000, caiff unrhyw un wneud honiad ysgrifenedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") bod aelod etholedig neu gyfetholedig o awdurdod perthnasol yng Nghymru wedi methu, neu efallai wedi methu, cydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod.

Os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod yr honiad yn haeddu ei ymchwilio, gall drefnu i'r ymchwiliad gael ei gynnal gan ei swyddfa. Fel arall, gall yr Ombwdsmon gyfeirio'r mater at y swyddog monitro perthnasol er mwyn ymchwilio iddo a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol.

Gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad ar ôl yr ymchwiliad nad oedd achos o dorri'r cod ac nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, os oes tystiolaeth ymddangosiadol o dorri'r cod, bydd yr Ombwdsmon yn llunio adroddiad ar ôl cwblhau'r ymchwiliad ac yn ei anfon naill ai at swyddog monitro yr awdurdod perthnasol neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn cael dyfarniad terfynol.

## 1.4 Rôl Panel Dyfarnu Cymru

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol:

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac
- Ystyried apelau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdod lleol eu bod wedi torri'r cod ymddygiad.

## Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim

Pan fydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad at Lywydd y Panel Dyfarnu, caiff "tribiwnlys achos" sy'n cynnwys rhai o aelodau'r Panel ei gynnull i ystyried yr adroddiad, i dderbyn tystiolaeth ac i benderfynu a dorrwyd y cod ymddygiad.

Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod, mae ganddo bwerau i wahardd yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at flwyddyn; neu caiff anghymhwyso'r aelod am hyd at bum mlynedd.

Os bydd tribiwnlys achos yn penderfynu bod rhywun heb gydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, caiff y person hwnnw geisio caniatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, neu unrhyw benderfyniad a wnaiff y tribiwnlys o ran cosb.

Os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er budd y cyhoedd, caiff yr Ombwdsmon wneud adroddiad interim i Lywydd y Panel Dyfarnu yn argymell bod aelod yn cael ei wahardd dros dro tra cynhelir ymchwiliad. Bydd tribiwnlys achos interim yn penderfynu a ddylid gwahardd yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at chwe mis.

## Tribiwnlysoedd Apêl

Os bydd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater at swyddog monitro a bod y pwyllgor safonau wedi dyfarnu bod aelod heb gydymffurfio â'r cod ymddygiad, mae gan yr aelod hwnnw hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu. Rhaid ymarfer yr hawl honno cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'r aelod gael gwybod am ddyfarniad y pwyllgor safonau. Os bydd tribiwnlys apêl yn cytuno bod yr aelod wedi torri'r cod, gall gadarnhau'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau neu gall gyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor gan argymell y dylid rhoi cosb wahanol. Yn ogystal, gall tribiwnlys apêl wrthdroi dyfarniad pwyllgor safonau bod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.

# 2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Dangosir aelodau presennol y Panel Dyfarnu isod. Gyda'i gilydd, mae gan aelodau'r Panel brofiad a gwybodaeth berthnasoleang i gyfrannu at waith y Panel a'i dribiwnlysoedd. Maent yn dod o rannau gwahanol o Gymru sy'n hwyluso'r broses o benodi aelodau i dribiwnlysoedd ar sail ddaearyddol.

Mae'r Llywydd, pedwar o'r aelodau cyfreithiol ac un o'r aelodau lleyg yn siarad Cymraeg.

## Y Llywydd ac Aelodau Cyfreithiol



2002-2012

Mae Llywydd y Panel Dyfarnu, **Mr J Peter Davies** yn rhedeg ei bractis cyfreithiol ei hun yng Nghaerdydd sy'n arbenigo mewn ymgyfreitha sifil a masnachol ac, yn arbennig, mewn materion rheoleiddio. Mae'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth ac yn gadeirydd y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.



2010-2015

**Ms Kate Berry** yw cyn Gyfreithiwr a Swyddog Monitro Cyngor Dinas a Sir Caerdydd. Mae ganddi brofiad yng nghyfraith y sector preifat a chyhoeddus ac yn gyn gynghorwr tref yn Nailsworth.



2010-2015

Ar hyn o bryd, mae **Mrs Emma Boothroyd** yn ddyfarnwr gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Mae ganddi brofiad ym maes cyfraith breifat.



2002-2012

Mae **Mrs Helen Cole** yn uwchbartner mewn practis cyffredinol yn y Gorllewin ac yn arbenigo mewn gwaith annadleuol gyda chleientiaid preifat.



2010-2015

Mae **Mr Gwyn Davies** yn gyfreithiwr sydd â phrofiad mewn awdurdodaethau cyfreithiol amrywiol yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae'n gyn Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.



2002-2012

Mae **Mr Hywel James** yn Farnwr Rhanbarth.



2002-2012

Mae **Mr Stewert Sandbrook-Hughes** yn fargyfreithiwr yn Abertawe ac yn ddyfarnwr gyda'r Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol.

## Aelodau Lleyg



2010-2015

Mae **Mr Andrew Bellamy** yn Gyfarwyddwr anweithredol gydag Estyn ac yn adolygydd cymheiriaid gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru. Mae ganddo brofiad yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.



2002-2012

Roedd **Mr Ian Blair** yn Syrfëwr y Sir gyda Chyngor Sir Powys ac yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n aelod o Fwrdd Llysoedd Canolbarth a Gorllewin Cymru.



2002-2012

Mae'r **Cyng Colin Evans** yn gynghorydd Llafur ar Gyngor Tref Cwmaman.



2010-
2015

Mae **Miss Susan Hurds** yn aelod lleyg o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth Cymru a Lloegr. Mae ganddi brofiad yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn ddiweddar gyda Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion.



2002-
2012

Mae'r **Cyng Christine Jones** yn aelod Annibynnol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn aelod o fwrdd Cymdeithas Tai Cartrefi Conwy.



2002-
2012


Mae **Ms Juliet Morris** yn rhedeg busnes fferm organig yn Sir Gaerfyrddin.  Bu'n gweithio ym maes polisi cymdeithasol a pholisi'r sector cyhoeddus gyda chyrff yn cynnwys Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol, Cyngor Defnyddwyr Cymru a'r sector cynghori annibynnol yng Nghymru.

# 3. Honiadau o Gamymddwyn


## 3.1 Trosolwg

Yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2002 a 31 Mawrth 2011, daeth y Panel Dyfarnu i benderfyniad ar 32 o achosion a atgyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon ac wyth apêl yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgorau safonau. Mae Ffigurau 1 i 3 yn dangos canlyniadau'r dyfarniadau hynny. Rhoddir crynodeb o'r cosbau a roddwyd yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.


### Ffigur 1: Penderfyniadau tribiwnlysoedd achos, Hydref 2002 - Mawrth 2011




### Ffigur 2: Penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl, Hydref 2002 - Mawrth 2011



## Ffigur 3: Sut y torrwyd y cod Hydref 2002 - Mawrth 2011




## 3.2 Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achosion

Cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 10 achos i'r Panel yn ystod 2010-11 a chariwyd 9 achos drosodd o'r flwyddyn flaenorol. Ceir crynodeb isod o'r 12 achos a benderfynwyd gan y Panel yn ystod y flwyddyn.

## APW/002/2009-010/CT ac APW/12/2009-10/CT - Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Cymuned Henfynyw

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ddau achos ar wahân ond cysylltiedig ac ystyriwyd y rhain gan Dribiwnlys unigol. Yr honiadau oedd fod y cynghorydd wedi torri codau ymddygiad y Cynghorau drwy geisio camddefnyddio ei safle, methu â datgelu buddiant a, lle'n briodol, peidio â bod yn rhan o drafodaethau a oedd yn ystyried materion cynllunio amrywiol ar sawl achlysur.

Oherwydd ei fod yn berchennog tir yn yr ardal, dyfarnodd y Tribiwnlys fod gan y cynghorydd fuddiannau personol mewn cais cynllunio ar gyfer tir ger ei dir ef, yn y Cynllun Datblygu Unedol, y Cynllun Datblygu Lleol a gwelliannau ffyrdd penodol yn yr ardal. Roedd ganddo hefyd fuddiant personol mewn cais cynllunio oherwydd anghydfod personol â'r ceisydd. Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi methu â datgelu'r buddiannau hyn ac wedi methu â bod yn rhan o drafodaethau a oedd yn ystyried y materion hyn fel sy'n ofynnol yn ôl paragraffau 16(2) ac 16(3) cod ymddygiad 2001.

Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 7(a) ac 14(1) cod ymddygiad 2008 pan gyflwynodd achos llafar ac ysgrifenedig i swyddogion y cynghorau. Dyfarnodd y Tribiwnlys fod hyn yn ymgais i ddylanwadu ar faterion er mantais iddo mewn cysylltiad â gwelliannau i ffyrdd ger ei dir a datblygu tir mewn perthynas â'r cynllun gofodol lleol.

Cafodd y cynghorydd ei wahardd am 18 mis rhag bod yn aelod neu ymaelodi â Chyngor Sir Ceredigion neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## APW/005/2009-10/CT - Cyngor Sir y Fflint

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor drwy geisio camarwain ymchwiliad yr Ombwdsmon i ymddygiad honedig cyd-gynghorydd mewn cyfarfod o banel recriwtio. Roedd y cynghorydd hefyd wedi methu â chydymffurfio â chais yr Ombwdsmon i fynychu cyfweliad.

Ar adeg gwrandawiad y Tribiwnlys, roedd ymchwiliad yr Ombwdsmon i gamymddwyn honedig gan gyd-gynghorydd ar waith (daeth wedi hynny'n destun adroddiad ar wahân i'r Panel Dyfarnu). Felly, nid oedd ymddygiad honedig yr aelod arall yn fater i'r Tribiwnlys ei ystyried. Ei rôl oedd pennu a oedd anghysondebau honedig mewn negeseuon e-bost a anfonwyd gan y cynghorydd ar ôl cyfarfod y panel recriwtio a datganiad yr oedd wedi'i roi i archwilydd yr Ombwdsmon yn ymgais fwriadol i gamarwain yr Ombwdsmon.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod anghysondeb rhwng y wybodaeth a roddwyd gan y cynghorydd yn ei negeseuon e-bost a'i datganiad i'r Ombwdsmon. Roedd wedi bod yn feirniadol yn ei negeseuon e-bost o ymddygiad cyd-gynghorydd yn y cyfarfod, ond nid oedd y datganiad a lofnododd yn adlewyrchu'r farn honno.

Dyfarnodd Tribiwnlys yr Achos bod y cynghorydd wedi ceisio camarwain ymchwiliadau'r Ombwdsmon ac felly wedi dwyn anfri ar ei swydd, gan dorri paragraff 6(1)(a) cod ymddygiad 2008. Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd ei bod wedi methu'n afresymol â chydymffurfio â chais yr Ombwdsmon i fynychu cyfweliad, a hynny'n groes i baragraff 6(2) y cod.

Derbyniodd y Tribiwnlys sicrwydd fod y cynghorydd yn llawn werthfawrogi difrifoldeb y mater ac na fyddai'n digwydd eto. Ar y sail honno, ac o ystyried ffactorau lliniarol penodol yr achos, penderfynodd y Tribiwnlys nad oedd angen ei chosbi.

## APW/007/2009/10/CT - Cyngor Sir Ceredigion

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad drwy beidio â gweithredu'n wrthrychol ac er budd y cyhoedd wrth ystyried cais cynllunio mewn cyfarfod o Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor a drwy fethu datgelu buddiant a pheidio â chyfrannu at bwyllgor.

Cododd yr honiadau ar ôl i'r cynghorydd fynegi safbwyntiau mewn maniffesto etholiadol ac yn y wasg. Derbyniodd y Tribiwnlys nad oedd y cynghorydd wedi penderfynu ymlaen llaw sut byddai'n pleidleisio ar y cais cynllunio. Fodd bynnag, daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod y safbwyntiau a fynegwyd gan y cynghorydd yn golygu bod ganddo fuddiant personol o dan baragraff 10(2)(b) y cod ymarfer ac y gallai aelod o'r cyhoedd ddirnad yn rhesymol ei fod yn cael ei lywio gan fuddiannau ei ward yn fwy na buddiannau'r cyhoedd na buddion y cyhoedd. Dyfarnodd y Tribiwnlys ei fod wedi methu â datgelu buddiant fel sy'n ofynnol yn ôl paragraff 11(1) y cod.

Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod buddiant ward y cynghorydd mor sylweddol fel y gallai aelod o'r cyhoedd ddod i'r casgliad rhesymol bod sut yr oedd yn amgyffred buddiannau'r cyhoedd yn cael ei lywio. Yn sgil hynny, drwy fod yn rhan o ystyriaethau o'r cais cynllunio, roedd y cynghorydd yn torri paragraff 14(1) y cod.

Nododd y Tribiwnlys fod disgwyl i'r cynghorydd ddangos esiampl i gynghorwyr eraill yn ei swydd fel Is-Gadeirydd y Cyngor. Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad y dylid gwahardd y cynghorydd rhag bod yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a rhag bod yn Is-Gadeirydd y Cyngor am dri mis.

## APW/008/2009-10/CT - Cyngor Sir Ceredigion

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad drwy beidio â datgelu buddiant a pheidio â chyfrannu at gyfarfod o Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor wrth iddo ystyried cais cynllunio a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer ysbyty a chyfleusterau gofal iechyd. Ar adeg y cyfarfod roedd y cynghorydd yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Ceredigion ac yn aelod cyswllt o Fwrdd Iechyd Lleol Ceredigion.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod aelodaeth y cynghorydd o'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn golygu bod ganddo fuddiant personol o dan baragraff 10(2)(a)(ix)(aa) y cod, a'i fod wedi methu â datgelu hynny pan fynychodd gyfarfod o Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor, gan dorri paragraff 11(1). Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod ei fuddiant yn golygu bod ganddo fuddiant a oedd yn ei lywio ac y dylai wedi peidio â chyfrannu at y cyfarfod ac na ddylai fod wedi pleidleisio o blaid y cais, gan dorri paragraff 14(1) y cod.

Derbyniodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd yn ddyn gonest a oedd wedi gwasanaethu mewn llywodraeth leol ers dros 40 mlynedd a'i fod wedi rhoi sicrwydd na fyddai'n gwneud hyn eto.

Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad mai'r gosb briodol, yn dilyn cynnig y cynghorydd i ymddiswyddo fel aelod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor, oedd ei wahardd rhag gweithredu fel aelod o Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor am 7 wythnos.

## APW/009/2009-010/CT Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad wrth gadeirio cyfarfod o'r Cyngor drwy fethu ag ystyried cyngor a roddwyd iddo gan Swyddog Monitro'r Cyngor.

Yn ôl dymuniadau'r cynghorydd, penderfynodd y Tribiwnlys ar ei ddyfarniad ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi torri paragraff 8(a)(iii) y cod ymddygiad wrth gynnig pleidlais hyder mewn cyd-gynghorydd a gadael i drafodaeth ar y mater barhau yn groes i gyngor y Swyddog Monitro nad oedd hawl cyfansoddiadol i wneud hynny.

Nododd y Tribiwnlys fod methu ag ystyried cyngor y Swyddog Monitro yn fater difrifol. Roedd arweiniad ym mhenderfyniadau blaenorol y Tribiwnlys fod y gair "ystyried" yn golygu dilyn y cyngor a roddwyd heblaw bod rheswm da i beidio, er enghraifft, pe bai'r cyngor yn anghywir.

Canmolodd y Tribiwnlys y cynghorydd am gydnabod yn ddi-oed ei fod wedi torri'r cod, am ymddiheuro a derbyn cyfrifoldeb am ei weithredoedd yn hytrach na cheisio beio rhywun arall. Nododd hefyd ei ddiffyg profiad fel cadeirydd a'i ymdrechion i wella drwy fynychu hyfforddiant. Oni bai am y ffactorau hyn byddai'r Tribiwnlys wedi rhoi gwaharddiad hirach iddo.

Daeth y Tribiwnlys i'r penderfyniad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd am ddeufis.

## APW/010/2009-10/CT - Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor drwy gamddehongli cynnwys sgyrsiau â chynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru a Swyddog Monitro'r Cyngor mewn cyfweliad dilynol â'r wasg; hefyd drwy wrthod darparu gwybodaeth ar gais Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor.

Yn ôl dymuniadau'r cynghorydd, penderfynodd y Tribiwnlys ar ei ddyfarniad ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Dyfarnodd y Tribiwnlys, yn dilyn cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ffurfiol, fod y cynghorydd dan sylw wedi gwrthod rhoi i Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor gopi o'r llythyr roedd wedi'i ysgrifennu i Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Gweithrediaeth y Cyngor, a thorri paragraff 5(b) y cod. Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod y cynghorydd wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod, gan dorri paragraff 6(1)(a) drwy fethu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani a chamddehongli gwybodaeth i'r wasg.

Nododd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi ymddiswyddo am resymau iechyd. Mae canllawiau cosbau'r Panel Dyfarnu yn nodi y gall diarddeliad fod yn briodol os nad yw ymatebydd bellach yn aelod o dan amgylchiadau lle byddai gwaharddiad wedi bod yn gosb debygol fel arall. Yn sgil hynny, cafodd y cynghorydd ei ddiarddel am 12 mis rhag bod yn aelod neu ymaelodi â Chyngor Sir Ynys Môn neu unrhyw awdurdod perthnasol o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## APW/011/2009-10/CT - Cyngor Dinas Caerdydd

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor drwy ddefnyddio iaith y gwyddai a fyddai'n tramgwyddo Arweinydd y Cyngor, y gwyddai ei fod yn Iddew, wrth gymharu gweinyddiaeth y Cyngor â gweinyddiaeth yr Almaen dan y Natsïaid, yn ystod cyfarfod y Cyngor.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod ymddygiad y cynghorydd, er nad oedd yn aflonyddu neu'n fwlio, wedi methu â pharchu credoau a theimladau Arweinydd y Cyngor gyda'i sylwadau a'i fod wedi ceisio'i bryfocio, gan dorri paragraff 4(b). Roedd y cynghorydd wedi gwneud sylwadau y gwyddai a fyddai'n achosi tramgwydd, er gwaethaf negeseuon e-bost gan yr Arweinydd yn amlinellu ei ofid personol mewn cysylltiad â digwyddiadau cysylltiedig blaenorol. Daeth y Tribiwnlys hefyd i'r casgliad bod yr ymddygiad yn dwyn anfri ar swydd y cynghorydd ac ar yr awdurdod. Gwrthododd y Tribiwnlys yr awgrym bod sylwadau'r cynghorydd yn safbwynt gwleidyddol pur yr oedd ganddo'r hawl i'w fynegi wrth ymarfer ei hawliau o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Penderfynodd y Tribiwnlys wahardd y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Dinas Caerdydd am ddeufis.

## APW/013/2009-10/CT - Cyngor Tref Conwy

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor drwy ymddwyn yn amharchus, bwlio a dychryn swyddogion gorfodi sifil ar bedwar gwahanol achlysur. Hefyd, yn ystod yr ymchwiliad, daeth yr Ombwdsmon yn ymwybodol o honiadau pellach bod y cynghorydd eto wedi ymddwyn yn amhriodol tuag at swyddogion gorfodi sifil ac wedi ceisio defnyddio'i swydd fel cynghorydd yn amhriodol mewn perthynas â throsedd parcio.

Ni ymatebodd y Cynghorydd i'r rhybudd ysgrifenedig ffurfiol a anfonwyd ato gan y Tribiwnlys. Felly, deliodd y Tribiwnlys â'r mater heb gynnal gwrandawiad.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd, ar bum achlysur, wedi methu â pharchu ac ystyried eraill ac wedi defnyddio iaith anweddus a chwrs, ymddygiad ymosodol a sylwadau sarhaus, gan dorri paragraff 4(b) y cod. Ar sawl achlysur, ceisiodd ennyn gwrthdaro ac roedd yn euog o aflonyddu a bwlio'r swyddogion, gan gynnwys bygwth cyflogaeth un swyddog gorfodi yn y dyfodol, gan dorri paragraff 4(c).

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi ceisio defnyddio ei swydd fel cynghorydd tref yn amhriodol i ymestyn yr amser a oedd ar gael iddo barcio cerbyd, gan dorri paragraff 7(a) y cod.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod pwysigrwydd ac amlder y digwyddiadau yn dwyn anfri ar yr aelod a'r awdurdod, gan dorri paragraff 6(1)(a) y cod.

Roedd y Tribiwnlys wedi ystyried cyfnod gwasanaeth byr y cynghorydd a salwch, ond penderfynodd bod ei wahardd am 12 mis yn briodol.

## APW/001/2010-011/CT - Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad wrth gadeirio cyfarfod o'r Cyngor drwy fethu â chaniatáu i'r Swyddog Monitro ddarparu cyngor cyfreithiol ar gais aelodau yn ystod trafodaeth a ddilynodd cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ei Llythyr Blynyddol i'r Cyngor. Hefyd, ystyriodd y Tribiwnlys achos posibl arall o dorri'r cod a ddaeth i sylw'r Ombwdsmon yn ystod yr ymchwiliad, sef bod y cynghorydd wedi methu ag ystyried cyngor y Swyddog Monitro wrth gadeirio cyfarfod arall o'r Cyngor.

Penderfynodd y Tribiwnlys ar ei ddyfarniad ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Dyfarnodd y Tribiwnlys nad oedd y cynghorydd wedi caniatáu i'r Swyddog Monitro roi cyngor cyfreithiol yn ystod trafodaeth a ddilynodd cyflwyniad Swyddfa Archwilio Cymru.

O ran yr ail gyfarfod, dyfarnodd y Tribiwnlys fod y Swyddog Monitro wedi cynghori'r cynghorydd i beidio â chadeirio'r cyfarfod. Rhoddodd y cynghorydd y gorau i'w rôl fel Cadeirydd yn y lle cyntaf, ond ailafaelodd yn y rôl ar ôl trafodaeth yn y siambr am ei rôl; cadeiriodd y drafodaeth ddilynol ar Lythyr Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a chymerodd ran yn y bleidlais ar ddiwedd y drafodaeth.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi torri paragraff 8(a) y cod ymddygiad ar y naill achlysur a'r llall. Yn gyntaf, drwy beidio â chaniatáu i'r Swyddog Monitro roi cyngor cyfreithiol yn y cyfarfod cynharach ac, yn ail, drwy benderfynu cadeirio'r ail gyfarfod yn groes i gyngor y Swyddog Monitro.

Canmolodd y Tribiwnlys y cynghorydd am gydnabod yn ddi-oed ei fod wedi torri'r cod, am ymddiheuro ac am dderbyn cyfrifoldeb am ei weithredoedd yn hytrach na cheisio beio rhywun arall ac am ei wasanaeth da yn y gorffennol. Oni bai am y ffactorau hyn byddai'r Tribiwnlys wedi'i wahardd am gyfnod hirach. Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad y dylid gwahardd y cynghorydd am 4 mis.

## APW/003/2010-011CT - Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad wrth wneud sylw gwahaniaethol, hiliol neu amhriodol am ymgeisydd yn ystod ymarfer recriwtio ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Hefyd, yn ystod yr ymchwiliad, daeth yr Ombwdsmon yn ymwybodol o honiadau pellach bod y cynghorydd wedi defnyddio iaith amhriodol yn ystod sgwrs â chyd-gynghorydd cymuned ar ôl cyfarfod gyda Chyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd, drwy gyfeirio at liw ymgeisydd yn ystod y broses asesu, wedi methu ag ystyried yr egwyddor o gydraddoldeb gan dorri paragraff 4(a) y cod. Roedd sylwadau'r cynghorydd hefyd yn dangos diffyg parch ac ystyriaeth i'r ymgeisydd ac eraill a oedd yn rhan o'r broses recriwtio, gan dorri paragraff 4(b). Nid oedd ymddygiad y cynghorydd yn ymddygiad derbyniol y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan aelod etholedig ac roedd hynny'n dwyn anfri ar ei swydd. Roedd y cyhoeddusrwydd dilynol yn golygu bod ei sylwadau hefyd wedi dwyn anfri ar yr awdurdod, gan dorri paragraff 6(1)(a).

Dyfarnodd y Tribiwnlys nad oedd y cynghorydd yn gweithredu yn rhinwedd swyddogol ei swydd yn ystod y sgyrsiau â chyd-gynghorwyr ar ôl cyfarfod o'r cyngor cymuned. Derbyniodd y Tribiwnlys fod y rhain yn sgyrsiau preifat a phersonol rhwng dau unigolyn. Felly, er bod yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cynghorydd yn y sgwrs honno'n adlewyrchu'n wael arno'n bersonol, nid oedd yn dwyn anfri ar ei swydd o dan y cod.

Ystyriodd y Tribiwnlys gyflwyniadau eang a oedd wedi'u cyflwyno ar ran y cynghorydd. O dan holl amgylchiadau'r achos, daeth y Tribiwnlys i'r casgliad nad oedd yn angenrheidiol nac yn ddymunol gwahardd, rhannol wahardd neu ddiarddel y cynghorydd. Fodd bynnag, argymhellodd y Tribiwnlys fod y Cyngor Sir yn trefnu hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer ei holl aelodau.

## APW/004/2010/11/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor drwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol/esempt; anfon negeseuon e-bost anfoesgar ac amharchus at gyd-gynghorwyr; gwneud datganiad a fyddai'n achosi helynt neu aflonyddwch, ei anfon at y cyhoedd a'r wasg heb ystyried a ellid profi'r datganiadau; a gosod sylwadau am gyd-gynghorydd ar wefan gan awgrymu'n anghywir ei fod wedi cael swydd gyda lwfans cyfrifoldeb arbennig fel ffordd o ddylanwadu ar ei bleidlais yn ystod cyfarfodydd.

Roedd y cynghorydd yn cydnabod ei fod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg gan dorri paragraff 5(a) y cod ymarfer. Dyfarnodd y Tribiwnlys nad oedd gweithredoedd y cynghorydd yn dangos unrhyw barch at yr unigolion dan sylw, gan dorri paragraff 4(b). Er na dderbyniodd y tribiwnlys unrhyw dystiolaeth bod camau'r cynghorydd wedi neu'n debygol o gyfaddawdu ar ddidueddrwydd swyddogion, roedd ei fygythiadau parhaus a'i ymddygiad tuag atynt yn gyfystyr â bwlio, gan dorri paragraff 4(c). Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod gweithredoedd y cynghorydd, gan gynnwys dwyn honiadau di-sail difrifol iawn at sylw'r cyhoedd a pharhau i'w hailadrodd, wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod.

Roedd y Tribiwnlys o'r farn fod y cynghorydd wedi gweithredu mewn rhwystredigaeth, yn enwedig yn achos cyfnewid negeseuon e-bost ag aelodau eraill mewn ymateb i negeseuon e-bost a dderbyniodd, a oedd hefyd ymhell o fod yn foddhaol ym marn y Tribiwnlys. Derbyniodd y Tribiwnlys fod gan y cynghorydd hawl i gwestiynu, herio a chwyno lle'r oedd sail i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y Tribiwnlys o'r farn bod y cynghorydd wedi ymddwyn yn annerbyniol ac yn amhriodol.

O ystyried yr holl amgylchiadau, bu'r Tribiwnlys yn ystyried o ddifrif diarddel y cynghorydd. Fodd bynnag, o ystyried ymddiheuriad y cynghorydd i bawb dan sylw, y ffaith ei fod wedi cydnabod pwysigrwydd y cod a'i addewid i newid ei ymddygiad yn y dyfodol, gwaharddodd y Tribiwnlys y cynghorydd am 12 mis.

## 3.3 Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apelio

Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau tribiwnlys oedd apelio yn ystod y flwyddyn.

## 3.4 Achosion sydd ar y Gweill

Wrth lunio'r adroddiad hwn, roedd y Panel Dyfarnu wedi dyfarnu ar 5 achos yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac roedd 5 achos arall ar y gweill. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o achosion neu achosion posibl o dorri codau ymddygiad, fel peidio â dangos parch, ceisio camddefnyddio eu swydd fel aelod, dychryn a bwlio gweithwyr y cyngor, gwneud honiadau cyhoeddus di-sail am swyddogion, peidio â datgelu buddiannau wrth ddyfarnu grantiau bach i sefydliadau cymunedol.

Ceir rhagor o wybodaeth am achosion sydd wedi'u cwblhau yn adroddiadau penderfyniadau'r tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar wefan y Panel: www.paneldyfarnucymru.org.uk.

# 4. Trosolwg o'r Gweithdrefnau

Rheolir gwaith Panel Dyfarnu Cymru gan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru/Gweinidogion Cymru a Llywodraeth San Steffan (yr olaf ynglŷn ag awdurdodau'r heddlu).

Prif nod y Panel Dyfarnu yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyflwyno eu hachos a bod yr achos hwnnw'n cael yr ystyriaeth lawnaf a thecaf sy'n bosibl.

Fel rheol bydd cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau arall yn aelodau o dribiwnlys. Gellir amrywio hyn yn ôl disgresiwn Llywydd y Panel Dyfarnu.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau tribiwnlysoedd yn gyhoeddus ac eithrio os yw'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn rhagfarnu buddiannau cyfiawnder, neu os yw'r ymatebydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir delio â'r honiadau trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. O bryd i'w gilydd, gall fod rhesymau eraill dros beidio â chynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, yn gyhoeddus.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau yn ardal yr awdurdod perthnasol os oes yno le addas. Mae trefniadau'r gwrandawiadau'n cymryd i ystyriaeth gofynion arbennig y rhai a fydd yn bresennol e.e. os oes angen lle ar gyfer cadair olwyn, dehonglydd, cymorth clyw, ac ati.

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i rai sy'n dymuno i wrandawiad tribiwnlys gael ei gynnal yn y Gymraeg.

Mae gan y sawl y gwnaed yr honiadau amdano hawl i roi tystiolaeth, i alw ar dystion, i holi unrhyw dystion ac i annerch y tribiwnlys ar faterion sy'n ymwneud â'r honiadau sydd o dan ystyriaeth.

Cyhoeddir manylion gwrandawiadau tribiwnlysoedd a'u canlyniad ar wefan y Panel ac yn y wasg leol, fel sy'n briodol.

Mae hawl i geisio caniatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl ond, fel corff cyhoeddus, gellir cynnal adolygiad barnwrol o'r Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd lle bo hynny'n briodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithdrefnau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu.

# 5. Yr Uned Gymorth

Cefnogir y Panel Dyfarnu gan:

Stephen Phipps, Cofrestrydd y Panel
John Davies
Carol Webber
Jason Plange

Cyfeiriad y Panel yw:

Panel Dyfarnu Cymru
Llawr 1af, Adain y Gogledd (M-08)
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6705/6414
Ffacs: 029 2082 3442

E-bost: adjudicationpanel@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.paneldyfarnucymru.org.uk

# Atodiad

## Crynodeb o'r Cosbau a Roddwyd gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2011

| Cosb | Cyfnod | Nifer y penderfyniadau |
|---|---|---|
| **Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl** | | |
| Anghymhwyso | Dwy flynedd a 6 mis | 1 |
| | Dwy flynedd | 1 |
| | 1 flwyddyn 6 mis | 1 |
| | 1 flwyddyn | 3 |
| Gwahardd | 12 mis | 5 |
| | 9 mis | 3 |
| | 6 mis | 4 |
| | 4 mis | 1 |
| | 3 mis | 2 |
| | 2 fis | 4 |
| | 1 mis | 2 |
| Gwaharddiad Rhannol | 3 mis | 1 |
| | 7 wythnos | 1 |
| Cerydd | - | 2 |
| Torri'r cod - dim camau | - | 5 |
| Heb dorri'r cod | - | 4 |
| Wedi eu tynnu'n ôl | - | 2 |

| Apelau | |
|---|---|
| Cadarnhau/gwrthod y dyfarniad | 7 (87.5%)/1 (12.5 %) |
| Cadarnhau'r gosb | 5 |
| Argymell cosb wahanol | 1 cynnydd/1 gostyngiad |
| Heb dderbyn<br>• Allan o amser<br>• Heb fod o fewn awdurdodaeth | <br>1<br>1 |